**Sesiwn 2000-2001 Rhif 18**

# PAPURAU BUSNES

## PLEIDLEISIAU A THRAFODION DYDD MERCHER, 12 GORFFENNAF 2000

## RHAN 2 – ADRAN H

**Cychwynnodd y cyfarfod am 2pm**

**2.00pm**
**Ethol i'r Panel Apeliadau Cynllunio**
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu:

1. Sefydlu pwyllgor, a fydd yn dwyn yr enw Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio 2000/2, a hynny’n unol â Rheol Sefydlog 27 er mwyn cyflawni swyddogaethau’r Cynulliad o ran penderfynu ar ddau gais o dan Adran 77 ac un apêl o dan Adran 78 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 mewn perthynas â’r materion a nodir yn yr Atodlen i’r cynnig hwn a bod y swyddogaethau sydd gan y Cynulliad yn hynny o beth yn cael eu dirprwyo i’r Pwyllgor hwnnw;

2. Mai aelodau’r Pwyllgor hwnnw fydd:

Richard Edwards (Cadeirydd)
Carwyn Jones
Jocelyn Davies
Christine Humphreys

3. Bod y Pwyllgor yn peidio â bodoli pan fydd Cadeirydd y Pwyllgor yn llofnodi’r llythyrau penderfynu yn unol â Rheol Sefydlog 27.16 neu ar 30 Medi 2000 p’un bynnag fydd y cynharaf.

4. Os bydd y Pwyllgor yn peidio â bodoli heb i’r Cadeirydd fod wedi llofnodi’r llythyrau penderfynu mewn perthynas â’r materion a nodwyd yn yr Atodlen i’r cynnig hwn, yna bydd y swyddogaethau a nodir ym mharagraff 1 uchod, mewn perthynas â mater o’r fath, yn cael eu dirprwyo i’r Ysgrifennydd Cynulliad dros Lywodraeth Leol a Thai (gan fod gan y Prif Ysgrifennydd fuddiant etholaethol yn yr apêl).

**Atodlen**

Cais gan Mr a Mrs M Woosnam ar gyfer bwriad i ddatblygu annedd ac adeilad amaethyddol ategol ar dir yn Gwestydd Uchaf, Cefn-mawr, y Drenewydd, Powys.

Cais gan Mr E Griffiths ar gyfer bwriad i godi annedd a siop ffonau symudol ar dir yn Y Glyn, Talgarreg, Ceredigion.

Apêl gan Edge Developments Limited ar gyfer bwriad i ddatblygu warws manwerthu, canolfan arddio a lle parcio atodol, tirlunio a threfniadau mynediad ar dir yn union i'r dwyrain o gylchfan Croes Cwrlwys ger Cowbridge Road West a'r Ffordd Ddosbarthu Ymylol, Caerdydd.

**Cymerwyd pleidlais**

O Blaid 38; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 38.

**Cymeradwywyd y cynnig**

**2.03pm**
**Cwestiynau i Rhodri Morgan, y Prif Ysgrifennydd, ar Ddatblygu Economaidd**
Gofynnwyd y 4 cwestiwn cyntaf

**2.20pm**
**Cwestiynau i Edwina Hart, yr Ysgrifennydd Cyllid**
Gofynnwyd y 5 cwestiwn cyntaf

**2.35pm**
Gwnaeth y Prif Ysgrifennydd ddatganiad ar yr adolygiad o Weithdrefnau'r Cynulliad

**2.50pm**
Gwnaeth Ysgrifennydd y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddatganiad ar y Strategaeth Iechyd

**3.30pm**
Gwnaeth y Trefnydd ddatganiad ar y Gynhadledd Llais Ifanc a gynhaliwyd yn ddiweddar

**3.50pm**

**Pwyntiau o Drefn:**

i. **Mike German** o dan RhS 7.3 mewn perthynas ag Aelod nad oedd wedi ufuddhau i orchymyn o'r gadair i ddod â'i gyfraniad i ben.

   Cadarnhaodd y Llywydd pa mor bwysig ydyw i Aelodau gydymffurfio â chyfarwyddiadau o'r gadair a roddir er mwyn sicrhau y gellir cwblhau'r busnes dan sylw. Roedd ganddo ffydd mawr yn y syniad o gyflwyno clociau i gynorthwyo Aelodau i reoli amseriad eu cyfraniadau eu hunain.

ii. **Alison Halford** mewn perthynas â chael ei gwahardd o gyfarfod nesaf y pwyllgor archwilio pan fydd yn ystyried Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd. Roedd am wybod sut allai gynrychioli pryderon ei hetholwyr yn ddigonol a gofyn cwestiynau perthnasol.

Cadarnhaodd Janet Davies, Cadeirydd y Pwyllgor, bod hyn yn unol â'r Rheolau Sefydlog, ond bod y rhain wedi'u diwygio'n ddiweddar i ganiatáu i Aelodau sydd wedi'u gwahardd o gyfarfod penodol anfon eilydd. Dyma sut y gellid codi materion penodol.

**3.55pm**
**Cymeradwyo Rheoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2000**

*Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn:*

Ystyried egwyddor y Rheoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Mehefin 2000.

**Cymerwyd pleidlais ar egwyddor y Gorchymyn:**

O blaid 35; Ymatal 0; Yn erbyn 0 ; Cyfanswm 35

**Cytunwyd ar egwyddor y Gorchymyn**.

*Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn:*

(a) ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau sy'n ymwneud â'r Gorchymyn drafft, Rheoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Gorffennaf 2000.

(b) cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Mehefin 2000

**Cymerwyd pleidlais ar y Gorchymyn:**

O blaid 35; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 35.

**Cymeradwywyd y Gorchymyn**

**4.02pm**

**Cymeradwyo Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) 2000**

***Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn:***

Ystyried egwyddor Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Mehefin 2000

**Cymerwyd pleidlais ar egwyddor y Gorchymyn:**

**Datganodd yr Aelodau canlynol fuddiant:**

**Christine Chapman; Mick Bates; Mike German; Christine Humphreys; Helen Mary Jones; Ron Davies; Gareth Jones; Janet Ryder; Andrew Davies**

O blaid 36; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 36

**Cytunwyd ar egwyddor y Gorchymyn.**

**4.06pm**

**Cynnig cyfansawdd i Gymeradwyo:**

*Y cynnig canlynol a gyflwynwyd yn unol â Rheol Sefydlog 22.23A ac a roddir i bleidleisio arno ar unwaith heb ddadl.*

**Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried adroddiadau'r Pwyllgor Deddfau ac yn cymeradwyo'r gorchmynion drafft canlynol o dan reol sefydlog 22.23A:**

- Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Symiau y Gellir eu Codi) (Diwygio) (Cymru) 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Mehefin 2000, y memorandwm cywiriadau yn unol â Rheol Sefydlog 22.12a a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Gorffennaf 2000 ac adroddiad y Pwyllgor Deddfau sy'n ymwneud â'r Gorchymyn a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Gorffennaf 2000.

- Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau Aelodau) (Diwygio) (Cymru) 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Gorffennaf 2000 ac adroddiad y Pwyllgor Deddfau sy'n ymwneud â'r Gorchymyn a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Gorffennaf 2000

**Cymerwyd pleidlais ar y cynnig cyfansawdd:**

Datganodd yr Aelodau canlynol fuddiant:

Pauline Jarman; Geraint Davies

O Blaid 34; Ymatal 0; Yn erbyn 0 ; Cyfanswm 34

**Cymeradwywyd y cynnig cyfansawdd.**

**4.08pm**

**Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Cyfle Cyfartal**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

i. yn nodi adroddiad blynyddol cyntaf Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar ei drefniadau cyfle cyfartal (gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Gorffennaf 2000); o dan delerau Adran 120 Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a Rheol Sefydlog 6.5 (sy'n ymgorffori'r adroddiad blynyddol gan y Pwyllgor Cyfle Cyfartal fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 14.2);
ii. yn nodi gyda chymeradwyaeth y strategaeth y cytunodd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal arni, sef integreiddio cydraddoldeb â gwaith holl rannau'r Cynulliad;
iii. yn galw ar Gabinet y Cynulliad i gymryd pob cam sy'n angenrheidiol i sicrhau bod argymhellion perthnasol adroddiad Ymchwiliad Stephen Lawrence yn cael eu gweithredu'n llawn yng Nghymru;
iv. yn annog Cabinet y Cynulliad i sicrhau bod trefniadau effeithiol yn eu lle i sicrhau bod penodiadau cyhoeddus yng Nghymru yn gynrychioliadol o boblogaeth Cymru, ac i alluogi penodiadau i gael eu gwneud a fydd yn sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn adlewyrchu'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu yn well

**Cymerwyd pleidlais:**

O blaid 43; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 43

**Cymeradwywyd y cynnig.**

**4.56pm**

**Dadl Fer:**
**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru); Dreillio Tywod**

**5.16pm**

**Pwynt o Drefn**

**Cofnododd Peter Black** y ffaith nad oedd wedi cofrestru ei fuddiant ar yr adeg briodol pan gymerwyd pleidlais ar Reoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau Aelodau) (Diwygio) (Cymru).

Nododd y Llywydd ei hysbysiad hwyr a datganiad hwyr arall gan Dai Lloyd.

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.17pm**

**************

# Wythnosau yn yr Etholaethau: 17 Gorffennaf – 8 Medi 2000

**************

# Mae'r Cynulliad wedi'i alw'n ôl ar gyfer cyfarfod llawn arbennig yn unol â Rheol Sefydlog 6.2 am

# 11am ddydd Mercher, 19eg Gorffennaf 2000

**************************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad**

**am 2.00pm ddydd Mawrth, 12 Medi 2000**

**J W Lloyd**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS I'R CYNULLIAD GYFARFOD DDIWETHAF**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD AR 11 GORFFENNAF 2000**
Cyfrifon Adnoddau Adrannol Y Swyddfa Gymreig ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 1999 hyd 30 Mehefin 1999
Adroddiad Y Pwyllgor Deddfau (LC96R) - Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar Gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000

Awdurdod Datblygu Cymru: Adroddiad Blynyddol 1999-2000 - Dim copiau electronig ar gael